

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD YMGEISYDD AM SWYDD

A elwir hefyd yn Hysbysiad Prosesu Teg

Mae'r hysbysiad hwn er mwyn ateb ein dyletswyddau o dan Reoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data¹ (GDPR) tuag atoch chi gyda'ch gwybodaeth bersonol.

Crynodeb

Fel rhan o'n proses recriwtio, bydd Tai Gogledd Cymru (TGC) yn casglu a phrosesu data personol yn ymwneud ag ymgeiswyr am swyddi. Data personol yw unrhyw ddata neu wybodaeth y gellir adnabod unigolion oddi wrtho fyddai, ar ôl ei gymysgu gyda gwybodaeth arall sy'n cael ei dal am yr un unigolyn, yn ei gwneud yn amlwg pwy yw testun y data. Mae gan TGC ymrwymiad i fod yn dryloyw ynghylch sut y bydd yn casglu a defnyddio data ac i ateb ei rwymedigaethau diogelu data.

Mae Tai Gogledd Cymru yn "rheolydd data". Ystyr hynny yw ein bod yn gyfrifol am benderfynu sut y byddwn yn cadw ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Mae'n ofynnol i ni, o dan y ddeddfwriaeth diogelu data, adael i chi wybod beth sydd yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Rydym yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn cael ein rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r hysbysiad hwn yn ddilys ar gyfer Ymgeiswyr am Swyddi (yn cynnwys swyddi parhaol, dros dro a gwirfoddol).

Mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr hysbysiad hwn, ynghyd ag unrhyw hysbysiad preifatrwydd arall y gallwn ei ddarparu ar adegau penodol wrth i ni gasglu neu brosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Trwy wneud hynny, byddwch yn ymwybodol o sut a pham y byddwn yn defnyddio'r fath wybodaeth.

Egwyddorion diogelu data

Byddwn yn cydymffurfio gyda chyfraith diogelu data. Yn ôl hynny, mae'n ofynnol i'r wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chadw amdanoch:

1. Cael ei defnyddio mewn ffordd gyfreithlon, deg a thryloyw
2. Cael ei chasglu ddim ond ar gyfer dibenion dilys rydym wedi'u hegluro'n eglur i chi, a pheidio'i defnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n anghyson gyda'r dibenion hynny
3. Bod yn berthnasol i'r dibenion rydym wedi dweud wrthy'ch amdanynt, ac wedi'i chyfyngu i'r dibenion hynny'n unig
4. Bod yn gywir ac yn cael ei chadw'n gyfredol
5. Cael ei chadw am ddim ond cymaint o amser ag sy'n angenrheidiol ac i'r dibenion y byddwn wedi dweud wrthy'ch amdanynt
6. Cael ei chadw'n ddiogel



Mae hefyd yr egwyddor, uwchben popeth arall, o 'atebolrwydd' ac mae Tai Gogledd Cymru yn cydnabod ac yn cymryd ei chyfrifoldebau a'ch hawliau chi o ddifrif.

Gweledigaeth a Gwerthoedd

Gweledigaeth

Gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl, trwy ddarparu cartrefi i fod yn falch ohonynt a chreu cymunedau lle gallant ffynnu.

Gwerthoedd

Ein gwerthoedd a'n safonau yw'r hyn sy'n ein gwneud ni'n Gymdeithas Tai Gogledd Cymru. Dyma beth sy'n rhoi ystyr i ni. Bydd pob un o'n pobl yn gweithio tuag at y gwerthoedd hyn, sydd gyda'i gilydd yn disgrifio cymeriad y sefydliad. Ein gwerthoedd sy'n gyrru ein gwaith o wneud penderfyniadau bob dydd, ac mae'r ffordd byddwn yn ymddwyn yn ymgorffori ein gwerthoedd.

- **Agored...** rydym yn dryloyw yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn gwneud penderfyniadau
- **Ymddiriedaeth...** byddwn yn gwneud yr hyn byddwn yn addo ei wneud. Byddwn yn ymddwyn yn onest a chywir
- **Ymatebol...**tuag at anghenion a dyheadau ein cwsmeriaid, ein staff a'n partneriaid
- **Tegwch...**rydym yn agored i bawb, ond yn cau allan rhagfarn. Byddwn yn gweithredu'n bendant i hyrwyddo cydraddoldeb ac yn parchu amrywiaeth
- **Dysgu...**byddwn yn chwilio am ffyrdd gwell yn y dyfodol. Byddwn yn cydnabod pan fyddwn yn gwneud camgymeriadau, ac yn dysgu oddi wrthynt. Byddwn yn edrych ymlaen at ddysgu oddi wrth eraill.

Manylion cofrestru

Rhif cofrestru Tai Gogledd Cymru yw **Z5865343** a'n cyfeiriad cofrestredig yw:

Tai Gogledd Cymru
Plas Blodwel, Broad Street
Cyffordd Llandudno
Conwy, Gogledd Cymru
LL31 9HL

Sut a pham y byddwn yn casglu eich gwybodaeth a pha wybodaeth byddwn yn ei chasglu amdanoch.

Bydd TGC yn casglu data personol amdanoch chi at ddibenion recriwtio, a hynny ar y sail eich bod chi'n cydsynio i ni brosesu'r data hwn.

Lle bydd angen gwybodaeth ychwanegol yn amodol ar gynnig, er enghraifft, gall TGC ddibynnu ar sail gyfreithiol wahanol i brosesu eich data personol. Gallwch weld gwybodaeth preifatrwydd am y prosesu hyn mewn Hysbysiad Preifatrwydd y Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ar gyfer cyflogaion, gweithwyr a chontractwyr.

Dyma, isod, y wybodaeth bydd Tai Gogledd Cymru ei hangen oddi wrthy ch chi ar gyfer recriwtio:

Data Personol

Ystyr data personol, neu wybodaeth bersonol, yw unrhyw wybodaeth am unigolyn y gellir adnabod yr unigolyn oddi wrthi. Nid yw'n cynnwys data lle tynnwyd ymaith y ffordd o adnabod (data dienw).

Data personol sy'n cael ei gasglu

- eich enw, cyfeiriad a manylion cysylltu, yn cynnwys cyfeiriad ebost a rhif ffôn;
- manylion o'ch cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth;
- gwybodaeth am eich lefel cyfredol o dâl, yn cynnwys hawl i fudd-daliadau; a hefyd
- gwybodaeth am eich hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig;

Categoriâu arbennig o ddata personol

Mae "categoriâu arbennig" o ddata personol sy'n fwy sensitif ac angen lefel uwch o ddiogelwch.

- a oes gennych anabledd y bydd angen i'r sefydliad wneud newidiadau rhesymol ar ei gyfer yn ystod y broses recriwtio, a/neu eich bod yn gymwys yn awtomatig i gael cyfsweliad;
- gwybodaeth i fonitro cyfleoedd cyfartal, yn cynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, tueddfryd rhywiol, iechyd a chrefydd neu gred.

Dulliau o Gasglu Data

Bydd TGC yn casglu data mewn amryw ffyrdd, trwy:

- Ein System Tracio Ymgeiswyr (ar People HR)
- Llythyr Eglurhaol
- Ffurflenni Gais
- Curriculum Vitae
- Gohebiaeth
- Cyfsweliadau
- Aseadau
- Profion Ar-Lein
- Tystlythyrau
- Profion Cefndir DBS (lle bo hynny'n briodol)

Bydd data'n cael ei storio'n ddiogel ac yn unol â GDPR a'n Polisi Diogelu Data. Bydd hyn yn cynnwys systemau fel Office 365 a People HR.

Gallwch wrthod rhoi gwybodaeth os byddwch yn barnu ei bod yn amhriodol gofyn am y wybodaeth honno, er y gallai hynny effeithio ar ein gallu i gwblhau'r broses recriwtio.

Pam fod y sefydliad hwn yn prosesu data personol?

Mae TGC angen prosesu data er mwyn cymryd camau ar eich cais chi, cyn ymuno mewn contract gyda chi. Efallai bydd hefyd angen prosesu eich data er mwyn ymuno mewn contract gyda chi. Mewn rhai achosion, bydd TGC angen prosesu data i sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda'i rwymedigaethau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n ofynnol i TGC edrych a yw ymgeisydd llwyddiannus yn gymwys i weithio yn y Deyrnas Unedig, cyn dechrau eu cyflogi.

Mae gan TGC ddi-ddordeb cyfreithlon mewn prosesu data personol yn ystod y broses recriwtio ac mewn cadw cofnodion o'r broses. Bydd prosesu data oddi wrth ymgeiswyr am swyddi'n caniatáu i'r corff hwn reoli'r broses recriwtio, asesu a chadarnhau bod yr ymgeisydd yn addas i gael eu cyflogi, a phenderfynu i bwy i gynnig y swydd. Gall TGC hefyd fod angen prosesu data oddi wrth ymgeiswyr am swyddi er mwyn ymateb i, ac amddiffyn yn erbyn, hawliadau cyfreithiol.

Pam fod y sefydliad hwn yn prosesu categorïau arbennig o ddata personol?

Gall TGC brosesu gwybodaeth am a yw ymgeiswyr yn anabl ynte peidio, er mwyn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr gydag anabledd. Mae hyn er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau a defnyddio hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth.

Lle bydd TGC yn prosesu categorïau arbennig eraill o ddata, fel gwybodaeth am darddiad ethnig, tueddfryd rhywiol, iechyd neu grefydd neu gred, bydd hynny ar gyfer monitro cyfleoedd cyfartal.

Ar gyfer rhai rolau, mae dyletswydd ar TGC i geisio cael gwybodaeth am gollfarnau troseddol a throseddau. Pan fydd y sefydliad yn ceisio cael y wybodaeth hon, bydd yn gwneud hynny am ei bod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau a defnyddio hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth.

Pwy sy'n cael mynediad at ddata?

Gall eich gwybodaeth gael ei rhannu yn fewnol ar gyfer y gwaith recriwtio. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r Tîm Pobl, unigolion sy'n cyfweld ac yn rhan o'r broses recriwtio, a rheolwyr yn y rhan o'r busnes lle mae swydd wag.

Efallai bydd angen i TGC rannu eich data gyda rhai partïon trydydd parti allanol yn cynnwys:

- Cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau cyfweld ac asesu ymgeiswyr i TGC
- Cyflenwyr sy'n gwneud gwaith sgrinio cefndir ar ran TGC (asiantaeth archwilio credyd, biwro archwilio hanes troseddol ayyb)
- Sefydliadau academaidd (Prifysgolion, colegau ayyb) i ddilysu gwybodaeth rydych chi wedi'i darparu; a hefyd
- Cyflenwyr trydydd parti eraill sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan.

Sut bydd y sefydliad yn diogelu data?

Mae TGC yn cymryd diogelwch eich data o ddifrif. Mae ganddi bolisiâu a rheolaethau mewnol yn eu lle i sicrhau na fydd eich data chi'n cael ei golli, ei ddinistrio yn ddamweiniol, ei gamddefnyddio na'i ddatgelu. Hefyd mai dim ond ein cyflogeion wrth gyflawni eu dyletswyddau mewn ffyrdd cywir sy'n cael mynediad ato.



Mae TGC hefyd yn cyflogi rhywun sy'n gyfrifol am reoli gwybodaeth a'i chadw'n ddiogel, er mwyn sicrhau:

- Bod eich gwybodaeth yn cael ei diogelu; a hefyd
- Ein bod yn gadael i chi wybod sut y bydd yn cael ei defnyddio.

Mae angen i'r holl staff gael hyfforddiant yn rheolaidd. Mae angen am hyfforddiant cynhwysfawr er mwyn cynorthwyo i ddiogelu'r wybodaeth a roddwyd i TGC. Bydd yr hyfforddiant yn gwneud yn sicr bod yr holl staff sy'n gweithio i TGC yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran trin eich gwybodaeth, pa bynnag adran byddant yn gweithio ynddi.

Am faint o amser bydd y sefydliad yn cadw data?

Unwaith bydd y broses recriwtio wedi gorffen, bydd Tai Gogledd Cymru yn dal eich data fel a ganlyn:

Os na fydd eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus ac nad yw eich ffurflen gais yn mynd ar y rhestr fer, bydd y sefydliad yn dal eich data ar ffeil am chwe mis ar ôl hysbysu. (Mae hynny fel sy'n cael ei argymhell gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol a Chyfleoedd Cyfartal).

Os na fydd eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus ond eich bod wedi cyrraedd y rhestr fer, bydd hyn yn cynnwys nodiadau cyfweiliad a ffurflenni cais perthnasol, a bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw am 1 flwyddyn ar ôl hysbysu.

Os bydd eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus, bydd data personol a gasglwyd yn ystod y broses recriwtio yn cael ei drosglwyddo i'ch ffeil Pobl a'i chadw yn unol â'n Polisi Cadw Dogfennau a Data. Cewch wybod y cyfnodau amser ar gyfer cadw eich data, yn ein hysbysiad Preifatrwydd GDPR ar gyfer cyflogeion, gweithwyr a chontractwyr.

Gallwch gael manylion pellach am gadw gwybodaeth os gofynnwch amdanynt.

Mewn rhai achosion efallai bydd gennym ddyletswydd o dan y gyfraith i ddatgelu eich gwybodaeth i'r canlynol:

- Ein cyrff partner sydd â'u dibenion yn cydweddu gyda'n dibenion ni
- Cymdeithasau tai eraill
- Awdurdodau Lleol, rheoleiddwyr ac adrannau o'r llywodraeth
- Yr Heddlu, gwasanaeth tân neu'r awdurdod iechyd neu staff meddygol
- Eraill a allai fod angen gwybodaeth oddi wrthym ar gyfer eu dibenion eu hunain (i atal neu ganfod troseddau, atal neu ganfod twyll.)

Bydd yr holl ddata personol mae Tai Gogledd Cymru yn ei gasglu a'i ddal amdanoch chi'n cael ei brosesu gan ein staff yn y Deyrnas Unedig. Ni fydd gan unrhyw drydydd parti fynediad at eich data personol oni bai fod dyletswydd gyfreithiol i ni ei ddarparu iddynt.

Beth na fyddwn yn ei wneud

Ni fyddwn yn:

- gyrru deunydd marchnata trwy ebost atoch heb i chi ofyn amdano



- gwerthu eich data personol i drydydd parti
- gyrru eich data personol chi ymlaen i drydydd parti heb fod â chysylltiad, heblaw am pan fyddwn yn cael / yn gorfod gwneud hynny o dan y gyfraith ac wedi cael eich cydsyniad chi i wneud hynny

Beth os na fyddwch yn darparu data personol?

Nid oes unrhyw ddyletswydd statudol na chytundebol arnoch i ddarparu data i'r sefydliad yn ystod y broses recriwtio. Fodd bynnag, os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth, efallai na fydd y sefydliad yn gallu prosesu eich cais yn gywir os o gwbl.

Rwyf wedi gwneud cais am swydd i Tai Gogledd Cymru. Oes modd i mi newid fy meddwl?

Mae Tai Gogledd Cymru angen eich cydsyniad i gasglu eich data. Os byddwch eisiau newid eich meddwl a thynnu eich cais yn ôl, gallwch wneud hynny ar unrhyw adeg ond bydd yn golygu na allwch wneud cais am y swydd honno.

I ganslo eich cais, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda: -

Swyddfa Pobl

**Plas Blodwel, Broad Street,
Cyffordd Llandudno
Conwy, Gogledd Cymru,
LL31 9HL.**

Ffôn: 01492 563226

Ebost: people.office@TGCa.org.uk

Eich hawliau

Fel testun y data, mae gennych chi nifer o hawliau. Gallwch weud y canlynol:

- cael mynediad at eich data a chael copi ohono os gofynnwch am hynny;
- cael y sefydliad i newid gwybodaeth sy'n anghywir neu'n anghyflawn;
- cael y sefydliad i ddileu neu atal prosesu eich data, er enghraifft lle nad oes angen mwyach am y data ar gyfer prosesu; a hefyd
- gwrthwynebu prosesu eich data lle mae'r sefydliad yn dibynnu ar ei ddiddordebau cyfreithlon fel y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu.

Eich cyfrifoldeb chi yw cadw eich data personol yn gyfredol fel bod modd cadw cofnodion cywir o geisiadau. Os byddwch eisiau gwneud unrhyw newidiadau i'ch data ar ôl i chi gyflwyno eich cais, dylech gysylltu â'r Tîm Pobl.

Swyddog Diogelu Data

Bydd ein Swyddog Diogelu Data yn goruchwyllo cydymffurfiaeth gyda'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn neu sut y byddwn yn trin eich data personol, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda gareth.roberts@TGCa.org.uk.

Mae gennych chi'r hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef yr awdurdod yn y Deyrnas Unedig sy'n goruchwyllo materion diogelu data.



**The Information Commissioner
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF**

Ffôn: 0303 123 1113 / Ffacs: 01625 524 510

Ebost: casework@ico.org.uk

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Mae 'Live Chat' ar gael ar wefan y Comisiynydd: [ICO live chat](#)

Newidiadau i'n Hysbysiad Preifatrwydd Ymgeisydd am Swydd

Bydd ein Hysbysiad Preifatrwydd Ymgeisydd am Swydd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd a chafodd y fersiwn hwn ei ddiweddarau ar **16 Medi 2021**. Bydd y fersiwn llawn ddiweddaraf ar gael gydol yr amser o'n gwefan yn <https://www.TGCa.org.uk>

^{i i} Ystyr Rheoliad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ar Ddiogelu Data yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data fel sydd wedi'i drawsosod i gyfraith genedlaethol y Deyrnas Unedig gan ran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ynghyd â Ddeddf Diogelu Data 2018, ac unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data neu deddfwriaeth preifatrwydd sydd mewn grym o bryd i'w gilydd yn y Deyrnas Unedig.